

Bod yn glwb neu gymdeithas

Rheolau, systemau a
gweithdrefnau'r Undeb

Cynnwys

Cynllunio Sesiynau	3
Amcanion y sesiwn	3
Amcanion dysgu	3
Dull	3
Adnoddau sydd eu hangen	3
Amseru a awgrymir	3
Cynnal y sesiwn	5
Rhagarweiniad	5
Gwaith grŵp	5
Adborth/Trafodaeth	5
Araith gan y tiwtor	6
Gwaith grŵp	6
Crynodeb ac Adolygiad	6

Cynllunio sesiynau

Sgiliau yr Ymdrinir
Ymwybydyffredinol

Cynllunio Sesiynau

Amcanion y sesiwn

Nod y sesiwn hon yw amlinellu'r gwahanol reolau, systemau a gweithdrefnau mae'r undeb yn eu gosod ar gyfer clybiau a chymdeithasau.

Mae hon yn rhan hanfodol o'r rhaglen; mae'n bosib y byddwch am ei gwneud yn orfodol i glybiau a chymdeithasau ei mynychu. Serch hynny, mae potensial i'r sesiwn fod ychydig yn 'sych' - felly mae'n bwysig i chi gadw lefelau egni'n uchel a'ch bod yn bositif gydol yr amser.

Mae'n bwysig i chi baratoi ar gyfer y sesiwn hon drwy ymchwilio i'r holl reolau, systemau a gweithdrefnau perthnasol, fel y byddwch chi fel hyfforddwr yn teimlo eich bod wedi paratoi'n drylwyr. Fodd bynnag, mae angen i chi sylweddoli na fyddwch chi'n gwybod popeth! Mae'n bosib y bydd y rheiny sy'n cael eu hyfforddi'n holi cwestiynau na fyddwch yn gwybod beth yw'r ateb iddynt - gwnewch nodyn o'u cwestiwn a gwnewch yn sicr y byddwch yn rhoi gwybod iddyn nhw ar ôl y sesiwn.

Amcanion dysgu

Erbyn diwedd y sesiwn hon bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn gallu:

- Datgan pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau

- Disgrifio'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w clwb neu gymdeithas nhw
- Nodi ffynonellau ar gyfer arweiniad a chymorth o fewn Undeb y Myfyrwyr a'r sefydliad.

Dull

Bydd yr ymarferiad yn cynnwys cyflwyniad byr i'r grŵp yn ei gyfanrwydd, trafodaeth ymysg y grŵp, sesiwn adrodd yn ôl, araith gan y tiwtor a chwis.

Adnoddau sydd eu hangen

- Siart troi a phennau (o leiaf 5)
- Ar gyfer y cyflwyniad, gliniadur/cyfrifiadur a thaflunydd (os oes sleidiau wedi cael eu cynhyrchu)
- Taflenni i'w dosbarthu (os oes rhai wedi cael eu paratoi)
- Taflenni cwis
- Gwobrau bach (e.e. Cadbury's cream eggs) - digon i roi i bawb mewn grŵp bach

Amseru a awgrymir

Rhagarweiniad	5 munud
Gwaith grŵp	15 munud
Adrodd yn ôl	10 munud
Araith tiwtor	15 munud
Cwestiynau	5munud
Cwis	10 munud
Crynodeb	5munud

Cyfanswm amser = 65 munud

Cynnal y sesiwn

Cynnal y sesiwn

Rhagarweiniad

1. Dechreuwch drwy amlinellu nodau ac amcanion dysgu'r ymarferiad. Esboniwch sut bydd y sesiwn yn cael ei rhedeg, h.y. y dulliau y byddwch chi'n eu defnyddio a pha sgiliau fyddwch chi'n eu datblygu.

Gwaith grŵp

2. Dwedwch wrth y grŵp y byddwch yn eu rhannu'n ddau, a'ch bod am i'r ddau is-grŵp drafod y canlynol:
 - Beth yw diben rheolau, systemau a gweithdrefnau i glybiau a chymdeithasau myfyrwyr?
 - Pa feysydd sydd angen i'r rheolau, systemau a gweithdrefnau hyn ymdrin â nhw?
3. Rhannwch y grŵp yn ddau, rhowch ddau ddarn o bapur siart tro a phennau i bob grŵp, gwiriwch eu bod yn eglur yn glŷn â'r dasg a chyhoeddwch fod ganddyn nhw 15 munud. Pwysleiswch y bydd angen i bob grŵp fod â rhywun i adrodd yn ôl ar syniadau'r grŵp. Rhowch ganiatâd i'r grwpiau symud, fel eu bod nhw mewn gwahanol rannau o'r ystafell.
4. Rhowch ychydig funudau i bob grŵp setlo, yna ewch heibio pob un yn ei dro i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r dasg. Pan fydd 5 munud i fynd cyn diwedd y gwaith grŵp, ewch yn ôl at bob un o'r grwpiau i'w hatgoffa o'r angen i ddewis rhywun i ddarparu adborth ac i sicrhau eu bod yn cadw at y terfyn amser.

Adborth/Trafodaeth

5. Er mwyn hwyluso trafodaeth, dechreuwch drwy ofyn i un grŵp roi adborth ar y cwestiwn cyntaf. Wedyn gofynnwch i'r grŵp arall gytuno/anghytuno a chyflwyno unrhyw ychwanegiadau. Gofynnwch i'r ail grŵp gyflwyno unrhyw ychwanegiadau.
6. Ar gyfer yr ail gwestiwn, rhowch gyfle i'r ail grŵp fynd yn gyntaf, a'r tro hwn gofynnwch i'r grŵp

cyntaf gynnig ychwanegiadau a chytuno/anghytuno.

Ceir isod awgrymiadau ar gyfer sut gallai'r grwpiau ymateb er mwyn i chi ffurfio eich syniadau eich hunain i annog trafodaeth.

Cwestiwn 1: Beth yw diben rheolau, systemau a gweithdrefnau i glybiau a chymdeithasau myfyrwyr

Gall atebion gynnwys:

- Sicrhau bod clybiau a chymdeithasau'n cael eu trin yn gyfartal/yn deg
- Sicrhau bod clybiau a chymdeithasau'n cael eu rhedeg yn ddemocrataidd
- Sicrhau bod eu gweithgareddau'n gyfreithlon
- Sicrhau bod gweithgareddau clybiau a chymdeithasau mor ddiogel â phosib
- Sicrhau bod gan fyfyrwyr gyfle cyfartal i gyfranogi yng ngweithgareddau clwb neu gymdeithas.
- Atal problemau a diffyg trefn

Cwestiwn 2: Pa feysydd sydd angen i'r rheolau, systemau a gweithdrefnau hyn ymdrin â nhw?

Etholiadau

- sawl rôl
- gweithdrefnau ar gyfer enwebu/ymgeisio
- rhybudd i aelodau
- dull o bleidleisio

Cyllid

- gwneud cais am gyllid
- talu arian i mewn
- talu arian allan
- gweithdrefn ar gyfer prynu nwyddau

Diogelwch

- asesiad risg
- gweithdrefnau ar gyfer teithiau
- gyrru bysiau-mini
- cynnal adloniant/digwyddiadau

Arall

- gweithdrefnau ar gyfer llun-gopio/argraffu
- rheolau parthed gosod poster (a.y.b.) archebu bysiau-mini

Bod yn glwb neu'n gymdeithas effeithiol - Rheolau, Systemau a Gweithdrefnau

Y pwynt allweddol o'r ymarfer hwn yw esbonio pam bod rheolau, systemau a gweithdrefnau'n hanfodol i sicrhau bod gweithgareddau'n gyfreithlon, yn ddiogel ac nad ydynt yn camwahaniaethu. Maent yn sicrhau bod clybiau a chymdeithasau'n cael eu trin yn deg ac nad oes unrhyw un ohonynt yn cael triniaeth ffafriol.

Araith gan y tiwtor

7. Dwedwch wrth y grŵp eich bod chi (neu'n ddelfrydol y swyddog Undeb sydd â chyfrifoldeb dros glybiau a chymdeithasau) nawr yn mynd i'w tywys drwy reolau, systemau a gweithdrefnau arbennig eich Undeb Myfyrywyr.

Cofiwch! Wrth baratoi ar gyfer y ddarlith, mae'n bwysig i'r siaradwr gael rhagwybodaeth; gofynnwch iddyn nhw ymdrin â'r canlynol. Os nad oes siaradwr ar gael, neu os ydych chi am draddodi'r rhan hon eich hun, gwnewch yn sicr eich bod wedi ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol i'ch galluogi i ymdrin â'r pwyntiau canlynol.

Beth yw'r rheolau, systemau a gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n berthnasol i glybiau a chymdeithasau?

Pa aelod staff neu swyddog yr Undeb sydd angen i chi fynd i'w gweld i wneud y canlynol:

- archebu bws-mini neu fws mawr
- archebu bwyd neu ddiod
- trefnu ystafell gyfarfod
- cael llun-gopiö neu argraffu wedi'i wneud
- trefnu DJ neu offer PA
- archebu cyfleusterau neu offer chwaraeon
- trefnu bod yr UM yn hyrwyddo eu digwyddiad/gweithgaredd

(Nodwch: mae'n bosib nad staff neu swyddogion yr Undeb fydd pob un o'r rhain)

Unrhyw wybodaeth allweddol arall sydd ei hangen ar swyddogion clybiau a chymdeithasau.

Yn ddelfrydol, bydd llawer o'r wybodaeth hon eisoes wedi'i chasglu ynghyd yn un o gyhoeddiadau'r Undeb, e.e. llawlyfr clybiau a chymdeithasau.

Gwaith grŵp

8. Esboniwch eich bod chi nawr yn mynd i gynnal cwis byr ar glybiau a chymdeithasau.

9. Rhannwch y rheiny sy'n cymryd rhan yn grwpiau o 4 - 6 a dwedwch wrth bob grŵp bod rhaid iddyn nhw wneud eu sŵn arbennig eu hunain cyn ateb cwestiwn.

Gallwch ddewis o amrywiaeth o synau:-

anifeiliaid fferm (buwch, ceiliog, dafad a.y.b.) anifeiliaid eraill (rhai anwes neu o'r sŵ a.y.b.) synau mecanyddol (trên, meicrodon, a.y.b.)
Synau "gwneud" ("ping", "buzz" a.y.b.)

Dylai'r cwis ei hun gynnwys cymysgedd o gwestiynau am fanion clybiau a chymdeithasau, ynghyd â chwestiynau â'r nod o brofi'r hyn maent yn gallu ei gofio am y rheolau, systemau a gweithdrefnau. Gwnewch yn sicr eich bod yn gofyn cwestiynau sy'n berthnasol i amrediad o glybiau a chymdeithasau, ac nad ydych yn rhoi mantais i un dros y lleill.

Os ydych chi'n gallu treulio mwy o amser ar y cwis, gallwch fod mor greadigol ag y mynnwch, gan ychwanegu rowndiau tynnu llun / cerddoriaeth / lluniau. Os ydych chi'n gwneud hyn, mae'n ddefnyddiol bod â chynorthwydd i gadw'r sgôr, wrth i chi barhau â'r cwestiynau.

Rhowch y gwobrau bach i'r enillwyr ar y diwedd. Os ydych chi am wneud hynny, gallwch roi gwobr fach i'r grwpiau eraill hefyd.

Crynodeb ac Adolygiad

Treuliwch bum munud ar y diwedd yn ailadrodd y pwyntiau pwysicaf, gan bwysleisio ei bod y hanfodol i glybiau a chymdeithasau gadw at y rheolau, systemau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. Atgoffwch nhw y gall gweithredu'n groes i'r rhain arwain at ganlyniadau difrifol. Adolygwch yr amcanion dysgu a dirwyn y sesiwn i ben.

Macadam House
275 Gray's Inn Road
Llundain WC1X 8QB
f 0845 5210 262
f 020 7380 0794
e nusuk@nus.org.uk
www.nus.org.uk

ucm

undeb cenedlaethol y **myfyrwyr**